**Taflen Wybodaeth i Rieni am Brydau Ysgol am Ddim**

## 1. Pwy sydd â hawl i brydau ysgol am ddim?

Mae gan blant y mae eu rhieni'n cael y taliadau cefnogaeth canlynol hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir gan y cyngor:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Elfen warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Cymhorthdal o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant lle mae cyfanswm yr incwm blynyddol, yn ôl asesiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn llai nag £16,190.00 y flwyddyn ac nid yw Credyd Treth Gwaith yn cael ei dalu.
- 'Parhad' Credyd Treth Gwaith – dyma'r taliad a gaiff rhywun am bedair wythnos arall ar ôl i'w gymhwysedd ar gyfer Credyd Treth Gwaith ddod i ben (fel arfer pan ddaw ei gyflogaeth i ben neu ar ôl dechrau gweithio llai nag 16 awr yr wythnos). Os yw Credyd Treth Gwaith wedi'i roi mewn amgylchiadau eraill, ni fydd gennych hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae disgyblion sy'n cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm trwy eu rhinwedd eu hunain hefyd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## 2. Sut mae gwneud cais am brydau ysgol am ddim

Gwneud cais ar-lein – ewch i www.abertawe.gov.uk/freeschoolmeals

Lawrlwytho ffurflen gais – ewch i www.abertawe.gov.uk/freeschoolmeals (llenwch hi a'i phostio atom)

***NEU*** cysylltwch â ni (manylion isod) a gofynnwch i ffurflen gais bapur gael ei hanfon atoch y gallwch ei llenwi a'i dychwelyd atom.

Sylwer: Os ydych wedi hawlio Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor a datgan ar eich ffurflen gais eich bod hefyd am hawlio prydau ysgol am ddim, dywedir wrth ysgol eich plentyn yn awtomatig a oes gennych hawl iddynt.

## 3. Tystiolaeth i gefnogi'ch hawliad

Os ydych yn cael Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor yn Abertawe, mae gennym brawf eisoes o'ch incwm a'ch cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, os nad ydych, byddwn yn gwirio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau neu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gadarnhau a oes gennych hawl. Dyma pam ein bod yn gofyn i chi am eich rhif Yswiriant Gwladol neu NASS.

## 4. Cysylltwch â ni

Os oes gennych ymholiadau, os hoffech ofyn am ffurflen gais neu os oes angen i chi siarad â'r Tîm Prydau Ysgol am Ddim, dyma'ch opsiynau:

**Ein ffonio**: 01792 635353 – dewiswch opsiwn 9 yn y ddewislen awtomataidd

**Anfon e-bost atom:** prydauysgolamddim@abertawe.gov.uk

**Ysgrifennu atom:**
Tîm Prydau Ysgol am Ddim, Is-adran Budd-daliadau, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN

**Mynd i'n gwefan:** www.abertawe.gov.uk/freeschoolmeals